



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

PARATOWYD DAN

DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

DATGANIAD

Paratowyd y cynllun hwn yn unol ag adran 21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 7 Tachwedd 1997

Adolygwyd Mehefin 2011

CYFLWYNIAD

Egwyddor Cydraddoldeb

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn esbonio sut y bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Y Sefydliad

Corff Cyhoeddus Anadrannol yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a noddir ac a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet. Fe'i cyfansoddir dan atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) fel a ganlyn:

Cadeirydd	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
Dirprwy Gadeirydd	Barnwr yr Uchel Lys a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor
Comisiynydd	A benodir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Comisiynydd	A benodir gan Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet
Asesydd	Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr
Asesydd	Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans
Ysgrifennydd	Swyddog o Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a benodir gan Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet
Comisiynwyr Cynorthwyol	Unigolion annibynnol a benodir gan Swyddfa'r Cabinet i gynnal ymchwiliadau cyhoeddus

Mae'r Comisiwn yn cynnal ei gyfarfodydd yng Nghaerdydd ac fe'i cefnogir gan 12 o aelodau staff, a ddarperir gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar hyn o bryd, sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.

Dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru ar yr un pryd, o bryd i'w gilydd, a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd yn dangos yr etholaethau a argymhellir ganddo.

Wrth gynnal arolygon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynigion cychwynnol mewn papurau newydd sy'n cael eu cylchredeg yn yr etholaethau dan sylw, er mwyn

gwahodd sylwadau am y cynigion hynny ac ystyried unrhyw gyfryw sylwadau. Hefyd, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiadau newyddion a mapiau i hwyluso deall ei gynigion.

Fel rhan o'r arolwg, bydd y Comisiwn yn cynnal ymchwiliadau cyhoeddus. Diffinnir pwrpas ymchwiliad cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi sylwadau am unrhyw rai o'r cynigion y mae'r gwrandawriad yn ymwneud â nhw. Cynhelir unrhyw gyfryw wrandawriadau yn ddwyieithog.

Ar ôl cwblhau pob arolwg, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei argymhellion terfynol i Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet mewn adroddiad y mae'n ofynnol iddo ei gyflwyno gerbron y Senedd, ynghyd â Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor, sy'n gweithredu argymhellion y Comisiwn. Os caiff ei gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd, cyflwynir y Gorchymyn sydd i'w roi ar waith gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor. Wedi i'r Gorchymyn yn y Cyngor gael ei roi ar waith, daw ffiniau newydd yr etholaethau i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol nesaf.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, ac er mwyn darparu gwasanaeth yn y ddwy iaith, dyma a wnawn.

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

Polisiau a Mentrau Newydd

Wrth lunio a gweithredu unrhyw bolisiau a mentrau newydd, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ymroddedig i:

- hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r Gymraeg:

pa bryd bynnag yr ystyrir newid polisiau presennol neu gyflwyno polisiau a mentrau newydd, gwneir asesiad o'r canlyniadau ieithyddol. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â chyrrff perthnasol ac yn gofyn am gyngor ganddynt, yn ôl yr angen

- sicrhau bod unrhyw bolisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn ac nad ydynt yn ei danseilio:

wrth ystyried newid polisiau presennol neu fabwysiadu polisiau a mentrau newydd, bydd hyn yn cynnwys gwirio eu bod yn gyson â'r cynllun hwn ac yn ei ategu

- ymgynghori â chyrrff perthnasol ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun hwn, neu gynlluniau cyrff eraill:

wrth ystyried newid polisiau presennol neu fabwysiadu polisiau a mentrau newydd, bydd hyn yn cynnwys ymgynghori'n berthnasol

- sicrhau bod Comisiynwyr a staff yr Ysgrifenyddiaeth sy'n cyfrannu at lunio polisiau yn ymwybodol o'r cynllun hwn a chyfrifoldebau'r Comisiwn dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993:

bydd pob Comisiynydd, Dirprwy Gomisiynydd, Asesydd a staff yr Ysgrifenyddiaeth yn cael copi personol o'r cynllun hwn ac unrhyw newidiadau iddo a gymeradwyir gan y Bwrdd

- sicrhau y caiff y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn eu cymhwyso i unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu rhoi ar waith:

bydd y Comisiwn yn gwirio bod pob polisi a menter newydd yn cydymffurfio â gofynion y cynllun hwn

- hybu'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r Gymraeg:

bydd papur ysgrifennu, slipiau cyfarch, datganiadau newyddion, newyddlenni, hysbysiadau i'r wasg a thrawsgrifiadau ymchwiliadau cyhoeddus yn cadarnhau bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad a deliadau yn Gymraeg.

Cyflwyno gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno ei wasanaethau. Felly, bydd pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn yn cael ei chyhoeddi yn y ddwy iaith.

Mae camau penodol eraill y bydd y Comisiwn yn eu cymryd fel a ganlyn:

- caiff papur ysgrifennu, slipiau cyfarch, cardiau post ac unrhyw ddeunydd ysgrifennu arall ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn Gymraeg
- bydd gohebiaeth gan y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Gymraeg
- caiff newyddlenni, datganiadau newyddion, hysbysiadau i'r wasg, llyfrynau gwybodaeth, trawsgrifiadau ymchwiliadau cyhoeddus, adroddiadau i Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cyhoeddi'n ddwyieithog fel un ddogfen, yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn Gymraeg
- caiff unrhyw benawdau, allweddi, esboniadau, rhestrau, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a geir gan gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog

- bydd y Comisiwn yn ymdrechu i benodi Cadeiryddion Cymraeg eu hiaith i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus, lle bo hynny'n bosibl, yn enwedig pan ragwelir y gallai fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith
- bydd y Comisiwn yn penodi cyfieithwyr allanol proffesiynol i fynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd
- bydd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn ymateb i ddarparwyr gwasanaethau naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â gofynion y darparwr

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, sydd hefyd yn gweithio i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae'r Comisiwn yn cyflogi aelodau staff Cymraeg eu hiaith yn ei Ysgrifenyddiaeth ac yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel un o'r gofynion dymunol pan fydd yn hysbysebu swyddi.

Os digwydd nad oes siaradwr Cymraeg ar gael yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn defnyddio gwasanaethau un neu fwy o gyfieithwyr allanol proffesiynol i ddarparu cyfieithiadau ac ymateb i alwadau ffôn Cymraeg yn ystod oriau swyddfa arferol.

Yn benodol, mae'r Comisiwn yn ymroddedig i:

- ateb pob gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â dewis iaith y gohebydd
- ateb pob gohebiaeth cyn pen deng diwrnod gwaith o dderbyn llythyr, p'un a yw'r ateb yn cael ei anfon yn Gymraeg neu Saesneg
- ateb pob galwad ffôn yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â dewis y sawl sy'n ffonio

Safonau Ansawdd

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd cyfuwch yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn cynnwys y ffaith hon ar ffurf datganiad yn ei lyfrynnau gwybodaeth.

Yn benodol, bydd y Comisiwn:

- yn gosod yr un targedau amser ar gyfer ymateb i lythyrau a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
- yn trin pob ymholydd Cymraeg a Saesneg â'r un cwrteisi a doethineb
- yn defnyddio'r un arddull, fformat, maint teip, ansawdd ac amlygrwydd yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ei ddogfennau dwyieithog

CYSYLLTU AG UNIGOLION A CHYRFF SYDD AM OHEBU NEU SIARAD YN GYMRAEG

Gohebiaeth

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg ac yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, yn union fel yn Saesneg. Caiff datganiad byr i'r perwyl hwn ei gynnwys ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau post, newyddlenni, datganiadau newyddion, hysbysiadau i'r wasg, llyfrynau gwybodaeth, adroddiadau i Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet a chyhoeddiadau eraill y Comisiwn. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg, bydd y Comisiwn yn sicrhau:-

- y caiff ateb ei anfon o fewn yr un raddfa amser ag y byddai llythyr Saesneg yn cael ei ateb
- y caiff ateb Cymraeg ei lofnodi a'i anfon, pa bryd bynnag y bydd angen ateb
- ar ôl cyfathrebu dros y ffôn yn Gymraeg, bydd y Comisiwn yn anfon unrhyw ohebiaeth at y galwr yn Gymraeg, oni fydd y galwr wedi mynegi fel arall. Caiff enw pob galwr ei ychwanegu at restr y rhai y gwyddys eu bod am gyfathrebu yn Gymraeg
- y bydd unrhyw ohebiaeth gan y Comisiwn yn ddwyieithog os nad yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys
- mai yn Gymraeg y bydd unrhyw ohebiaeth gan y Comisiwn â phobl y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- y caiff unrhyw gylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru eu hanfon yn ddwyieithog

Caiff rhestr bostio ei llunio yn cynnwys enwau a chyfeiriadau'r unigolion a'r cyrff hynny y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu â'r Comisiwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff unrhyw ohebiaeth â'r unigolion a'r cyrff ar y rhestr honno ei hanfon yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn anfon gohebiaeth ddwyieithog at yr unigolion a'r cyrff hynny pan fydd yn anfon llythyr cyffredinol neu safonol, ffurflen neu gylchlythyr at nifer fawr o dderbynnyddion ar yr un pryd.

Cyfathrebu dros y ffôn

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg ac yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg, yn union fel yn Saesneg. Mae'r Comisiwn wedi cyflogi staff Cymraeg eu hiaith o fewn ei Ysgrifenyddiaeth sy'n gallu delio'n uniongyrchol â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, er mwyn sicrhau bod y safonau gwasanaeth yr un fath yn y ddwy iaith.

Ymchwiliadau Cyhoeddus

Mae croeso i'r rheiny sy'n bresennol yn ymchwiliadau cyhoeddus y Comisiwn siarad yn Gymraeg neu Saesneg. Cynhelir pob ymchwiliad cyhoeddus yng Nghymru a bydd llyfrynnau gwybodaeth, hysbysiadau i'r wasg, datganiadau newyddion a datganiadau ynghylch ymchwiliadau cyhoeddus yn ei gwneud yn glir y gall unrhyw unigolyn neu gorff â buddiant sy'n bresennol yn yr ymchwiliadau hyn gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Pa bryd bynnag y bo modd, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i benodi Cadeiryddion Cymraeg eu hiaith i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn cyfarwyddo Cadeiryddion i gyhoeddi ar ddechrau pob dydd ym mhob ymchwiliad cyhoeddus y gellir cyflwyno sylwadau yn Gymraeg neu Saesneg, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Bydd y Comisiwn yn trefnu bod dau gyfieithydd allanol proffesiynol ar gael i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ei ymchwiliadau cyhoeddus. Efallai y gofynnir iddynt gynorthwyo aelod yr Ysgrifenyddiaeth sy'n bresennol yn yr ymchwiliad i ddelio ag unrhyw ymholiadau gan y rheiny sy'n dymuno siarad Cymraeg hefyd. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod gan y cyfieithwyr yr offer cyfieithu angenrheidiol, neu'n cyflenwi'r offer hwnnw, i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd effeithlon ac effeithiol mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Cyfarfodydd Eraill â'r Cyhoedd

Y tu allan i ymchwiliadau cyhoeddus, nid yw'r Comisiwn yn cael unrhyw gysylltiad wyneb-yn-wyneb arall â'r cyhoedd yng Nghymru na Lloegr, fel arfer. Fodd bynnag, os digwydd hyn a bod unigolyn am gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, trefnir i aelod o'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

Deliadau Eraill â'r Cyhoedd

Caiff unrhyw wybodaeth a gyhoeddir gan y Comisiwn ar ei wefan ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Hefyd, bydd y wefan yn cynnwys datganiad bod y Comisiwn yn croesawu cysylltiad yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn ar gael ar y wefan yn y ddwy iaith. Cyfeiriad gwefan y Comisiwn yw:

www.comffin-cymru.gov.uk

WYNEB CYHOEDDUS Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Yn benodol:

- dangosir logo'r Comisiwn yn ddwyieithog
- dangosir gwybodaeth safonol fel enw'r Comisiwn a'r neges "mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg" yn ddwyieithog ar holl bapur ysgrifennu'r Comisiwn ac ar bob dogfen a gyhoeddir
- ym mhob dogfen ddwyieithog, bydd y ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd h.y. ffurfdeip, maint teip, arddull, ansawdd ac eglurder

Arwyddion Gwybodaeth

Arddangosir pob arwydd gwybodaeth yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn ddwyieithog, ac mae'r ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd. Ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru, bydd y Comisiwn yn sicrhau bod unrhyw arwyddion dros dro a arddangosir mewn lleoliadau i gyfeirio pobl at y gwrandawriad yn ddwyieithog, a bod y ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd.

Deunyddiau a Gyhoeddir ac a Argreffir

Caiff holl bapur ysgrifennu a dogfennau cyhoeddus y Comisiwn eu hargraffu'n ddwyieithog a'u cyhoeddi ar ffurf un ddogfen h.y. hysbysiadau i'r wasg, datganiadau newyddion, newyddlenni, llyfrynnau gwybodaeth, labeli mapiau, trawsgrifiadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau i Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet. Fel arfer, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r dogfennau hyn mewn fformat 'wyneb i waered'.

Os, am unrhyw reswm, nad yw'n bosibl cynhyrchu unrhyw gyhoeddiad ar ffurf un ddogfen, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yn eu dosbarthu gyda'i gilydd ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth anfon hysbysiadau newyddion neu newyddlenni, anfonir fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd yn yr un amlen.

Ffurflenni

Ar hyn o bryd, nid yw'r Comisiwn yn defnyddio unrhyw ffurflenni wrth gynnal ei fusnes. Fodd bynnag, pe byddai'n penderfynu defnyddio ffurflenni yn y dyfodol, caiff y rhain eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac ar ffurf un ddogfen, os yn bosibl.

Hysbysiadau i'r Wasg

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei holl hysbysiadau i'r wasg ar ffurf ddwyieithog.

Hysbysebion Recriwtio

Mewn unrhyw ymgyrch recriwtio, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i recriwtio siaradwyr Cymraeg i'w Ysgrifenyddiaeth.

GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

Staff Cymraeg

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi'i lleoli yng Nghaerdydd a chynhelir cyfarfodydd y Comisiwn, nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, yng Nghaerdydd. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw weithleoedd sydd â chysylltiad wyneb-yn-wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, ond mae'n trefnu ymchwiliadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn yr ymchwiliadau cyhoeddus hyn, bydd y Comisiwn:-

- yn ymdrechu i benodi Cadeiryddion Cymraeg eu hiaith i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus, lle bo hynny'n bosibl, yn enwedig pan ragwelir y gallai fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith
- yn trefnu bod dau gyfieithydd allanol proffesiynol ar gael i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rheiny sy'n bresennol mewn ymchwiliadau, gan gynnwys y gohebwyrs sy'n darparu gwasanaeth trawsgrifio gair am air
- yn sicrhau bod yr offer cyfieithu angenrheidiol ar gael
- yn cynhyrchu holl ddogfennau'r ymchwiliad yn ddwyieithog
- yn darparu unrhyw arwyddion sydd eu hangen ar ffurf ddwyieithog

Mae'r Comisiwn wedi penodi siaradwyr Cymraeg i'r Ysgrifenyddiaeth i fodloni gofynion y cynllun hwn. Wrth ystyried penodi staff newydd yn lle staff presennol neu recriwtio aelodau staff ychwanegol, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i gyflogi siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn parhau i ddefnyddio cyfieithwyr allanol proffesiynol i gynhyrchu pob dogfen a gyhoeddir ganddo ac at ddibenion eraill, lle bo hynny'n briodol.

Bydd Ysgrifennydd y Comisiwn yn arolygu'r cynllun er mwyn sicrhau y cynhelir safonau ac i weld a oes modd gwneud unrhyw welliannau. Bydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw gwynion yn ymwneud â'r cynllun neu'r modd y caiff ei roi ar waith, ac am unrhyw welliannau y gellid eu gwneud iddo.

Hyfforddiant Galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg

Os penodir siaradwr Cymraeg i'r Ysgrifenyddiaeth, gwneir asesiad o ba hyfforddiant sydd ei angen arno, mewn meysydd fel sgiliau ffôn, gallu drafftio, prosesu geiriau, cyfieithu ar y pryd a chyfieithiadau ysgrifenedig.

Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun

Caiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn gyfartal wrth ddarparu pob un o wasanaethau'r Comisiwn.

Cymeradwywyd y mesurau yn y cynllun hwn, a chaiff unrhyw ddiwygiadau i'r mesurau hyn yn y dyfodol eu cymeradwyo, gan y Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd, a bydd iddynt awdurdod llawn y Comisiwn. Caiff pob Comisiynydd Cynorthwyol gopi o'r cynllun hwn a bydd y cyfarwyddyd safonol yn cynnwys arweiniad ar roi'r cynllun ar waith mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

Ysgrifennydd y Comisiwn fydd yn gyfrifol am sicrhau y caiff y cynllun ei roi ar waith. Bydd llawlyfr hyfforddi staff yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys copi o'r cynllun.

Os na fydd gan y Comisiwn aelod staff sy'n siarad Cymraeg, ac os na all benodi rhywun sy'n siarad Cymraeg, bydd yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithwyr allanol proffesiynol. Os bydd y Comisiwn yn penderfynu addasu neu amnewid ei systemau cyfrifiadurol presennol neu gael systemau newydd, caiff y gallu i weithredu ymroddiadau'r cynllun hwn ei gynnwys yn y fanyleb.

Contractwyr Allanol

Bydd y Comisiwn yn defnyddio cyfieithwyr allanol sydd â chymwysterau proffesiynol yn unig, a fydd yn cael copi o'r cynllun hwn ac y bydd yn ofynnol iddynt ufuddhau i ymrwymadau a safonau'r cynllun.

Rhoddir copi o'r cynllun hwn i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau i'r Comisiwn a gofynnir iddynt gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei ymroddiadau. Bydd unrhyw ymarfer caffael a gynhelir gan y Comisiwn yn cynnwys gofyniad i sicrhau bod mesurau'r cynllun hwn yn cael eu parchu.

Pan gynhelir ymchwiliad cyhoeddus, bydd y Comisiwn yn sicrhau y defnyddir arwyddion dwyieithog i gyfeirio'r cyhoedd at y gwrandawriad, er mwyn bodloni ymroddiadau'r cynllun hwn.

Arolygu'r Cynllun

Yr Ysgrifennydd fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun hwn a bydd yn atebol i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd. Bydd yr Ysgrifennydd yn sicrhau:

- y bydd unrhyw newidiadau i bolisiau presennol neu unrhyw ystyriaeth i bolisiau neu fentrau newydd yn gyson â'r cynllun hwn
- y bydd pob gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn i'r cyhoedd yng Nghymru yn trin y ddwy iaith yn gyfartal
- y bydd unrhyw ddeunydd argraffedig ar ffurf ddwyieithog a'r ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd

- y bydd arwyddion a ddarperir mewn ymchwiliadau lleol gan awdurdodau lleol ar ran y Comisiwn yn ddwyieithog
- y bodlonir amseroedd ymateb a safonau eraill
- y gwneir ymdrech i gadw a/neu recriwtio siaradwr Cymraeg

Caiff unrhyw gwynion eu trin yn brydlon, eu harchwilio gan yr Ysgrifennydd a'u cyfleu i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd, gan anfon ateb at y sawl sy'n cwyno.

Caiff awgrymiadau gan aelodau'r cyhoedd i wella'r cynllun eu croesawu, eu cyfleu gan yr Ysgrifennydd i'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd i'w hystyried, a rhoddir ateb i'r sawl a wnaeth yr awgrym.

Ar ddiwedd pob arolwg cyffredinol ac atodol, bydd y Comisiwn, trwy un o'i gyhoeddiadau dwyieithog, yn gofyn am sylwadau'r rheiny a gymerodd ran yn yr arolwg am y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwyd gan y Comisiwn yn ystod yr arolwg hwnnw. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y modd y gweithredwyd ei gynllun.

Adrodd ar Berfformiad yn erbyn Safonau

Bob blwyddyn, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn yn cymharu'r perfformiad â'r safonau yn y cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys:

- nifer y bobl a'r cyrff yr anfonwyd copïau o'r cynllun hwn atynt
- sut y rhoddwyd gwybod i'r cyhoedd bod y Comisiwn yn croesawu deliadau yn y ddwy iaith
- nifer y bobl a'r cyrff ar restr y rheiny y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg
- canran yr ohebiaeth arall a anfonwyd yn ddwyieithog
- canran yr ohebiaeth a gafodd ei hateb yn briodol yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y gohebydd
- canran yr atebion a anfonwyd cyn pen deg diwrnod gwaith o dderbyn llythyr
- canran y dogfennau cyhoeddus a gyhoeddwyd yn ddwyieithog
- canran yr ymchwiliadau cyhoeddus lle y darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i'r Comisiwn os na fodlonwyd unrhyw rai o'r targedau ac yn rhoi'r rhesymau.

Cyhoeddusrwydd

Bydd y Comisiwn yn cymryd y camau canlynol i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun hwn a'i ddwyn i sylw'r rheiny sydd â diddordeb yn ei waith:

- bydd y Comisiwn yn anfon newyddlen yn gwahodd y rheiny sydd â diddordeb i wneud cais am gopi o'r cynllun hwn
- bydd y Comisiwn yn anfon copi o'r cynllun hwn, ac unrhyw ddiwygiadau iddo, yn uniongyrchol i'r cyrff hynny y gwyddys fod ganddynt diddordeb
- caiff cyfeiriadau at argaeledd y cynllun eu cynnwys yn natganiadau newyddion, newyddlenni, hysbysiadau i'r wasg, datganiadau ymchwiliadau lleol a llyfrynnau gwybodaeth y Comisiwn
- bydd holl aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth yn cael copi o'r cynllun
- bydd copi o'r cynllun ar gael ar y rhyngrwyd

Caiff argaeledd gwasanaeth dwyieithog ei gyhoeddi yn natganiadau newyddion, newyddlenni, hysbysiadau i'r wasg, datganiadau ymchwiliadau lleol a llyfrynnau gwybodaeth y Comisiwn.

TARGEDAU AR GYFER GWEITHREDU'R CYNLLUN YN LLAWN

Targed	Amserlen
Sicrhau bod y Comisiwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod polisiau newydd yn ystyried yr egwyddor o gyfrifoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg	Gweithredwyd yn barod
Trefnu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg	Gweithredwyd yn barod
Caiff yr holl bapur ysgrifennu ei argraffu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob hysbysiad i'r wasg ei gyhoeddi'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob datganiad newyddion a newyddlen ei gyhoeddi'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob llyfryn gwybodaeth ei argraffu'n	Gweithredwyd yn barod

ddwyieithog	
-------------	--

Targed	Amserlen
Caiff pob adroddiad a gyflwynir i Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Cabinet ei baratoi'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob deunydd argraffedig arall ei argraffu'n ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Bydd yr holl bapur ysgrifennu'n gwahodd cysylltiad yn y Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Bydd pob cyhoeddiad yn gwahodd cysylltiad yn Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob gohebiaeth ei hateb yn yr iaith a ddefnyddir gan y gohebydd	Gweithredwyd yn barod
Caiff pob gohebiaeth ei hateb o fewn yr un amserlen, p'un a yw'n cael ei derbyn yn Gymraeg neu Saesneg	Gweithredwyd yn barod
Gohebu yn Gymraeg â'r rhai y mae'n well ganddynt gyfrwng y Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Cadw rhestr o'r rhai y mae'n well ganddynt ohebu'n Gymraeg	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod cyfleusterau ar gael i ganiatáu i'r rhai sydd am gyfathrebu'n Gymraeg dros y ffôn wneud hynny	Gweithredwyd yn barod
Rhoi arweiniad i staff yr Ysgrifenyddiaeth i'w galluogi i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg	Gweithredwyd yn barod
Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawiadau cyhoeddus	Gweithredwyd yn barod
Sicrhau bod arwyddion gwybodaeth y Comisiwn mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn gwbl ddwyieithog	Gweithredwyd yn barod
Cynnwys cyfeiriad at y cynllun yn llyfrynau gwybodaeth y Comisiwn	Pan gânt eu hailargraffu
Sicrhau y caiff y cynllun ei gynnwys yn llawlyfr hyfforddi staff y Comisiwn	Ionawr 1999
Sicrhau bod pob Comisiynydd, Comisiynydd Cynorthwyol, Cadeirydd a staff yr Ysgrifenyddiaeth yn cael copi personol o'r cynllun ac unrhyw addasiadau iddo	Parhaus
Sicrhau y caiff y gallu i siarad Cymraeg ei restru'n un o'r gofynion dymunol ar gyfer swyddi yn yr Ysgrifenyddiaeth yn y dyfodol	Parhaus
Sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth yn ymwybodol o gynnwys y cynllun hwn	Parhaus
Sicrhau y caiff y cynllun ei arolygu'n fewnol	Parhaus
Llunio adroddiadau blynyddol, yn ôl yr angen	Ebrill 1999 a phob blwyddyn wedi hynny

Ymholiadau

Dylai unrhyw ymholiadau, sylwadau neu awgrymiadau am y cynllun hwn, p'un a ydynt yn Gymraeg neu Saesneg, gael eu cyfeirio at:-

Yr Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn 029 20395031
Ffacs 029 20395250
E-bost comffin-cymru@cymru.gsi.gov.uk

Rhyngrwyd

Mae copi o'r cynllun hwn a mwy o wybodaeth am waith y Comisiwn i'w gweld ar wefan y Comisiwn yn:-

www.comffin-cymru.gov.uk